Gofynion Tystysgrif Ychwanegol

Gofynion Tystysgrif Ychwanegol

Mae'n rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod dyluniad a chynhyrchiad pob tystysgrif y mae'n ei chyflwyno mewn perthynas â chymhwyster neu ddyfarniad credyd sydd wedi'i gymeradwyo neu ei reoleiddio (gan gynnwys rhai dynodedig) sydd ar gael ganddo yn cynnwys y gofynion canlynol sydd wedi'u nodi'n glir ac yn amlwg ar flaen y dystysgrif:

- enw llawn y corff dyfarnu fel y'i cydnabyddir gan Cymwysterau Cymru;
- enw llawn y dysgwr fel y'i cofrestrwyd;
- ar gyfer tystysgrifau cymwysterau, Rif y Cymhwyster, os o gwbl, neu ar gyfer tystysgrifau credydau, Rif(au) Cyfeirnod yr Uned, os o gwbl, fel y rhoddwyd i ffurflen y cymhwyster gan Cymwysterau Cymru;
- lefel cyrhaeddiad y dysgwr;
- lefel y cymhwyster neu'r credyd;
- y dyddiad (diwrnod/mis/blwyddyn) y mae'r corff dyfarnu yn cadarnhau cyrhaeddiad y dysgwr drwy roi tystysgrif;
- logo Cymwysterau Cymru yn unol â gofynion logos a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diweddaru o bryd i'w gilydd;
- ar gyfer tystysgrifau credydau, ddatganiad sy'n nodi bod y dysgwr wedi cael dyfarniad credyd;
- manylion tystysgrifau i'w cyhoeddi yn Saesneg neu'n Gymraeg a Saesneg lle bo'n briodol.

Gall corff dyfarnu gynnwys logos perthnasol eraill, gan gynnwys rhai rheoleiddwyr eraill lle bo'n briodol.